Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol/The National Centre for Learning Welsh
# Heol y Coleg
# Caerfyrddin
# SA31 3EP

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2021

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Cyd-destun

Ar 1 Awst 2016, trosglwyddwyd cyfrifoldeb llawn am y sector Cymraeg i Oedolion i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (y Ganolfan). Mae'r Ganolfan yn gorff hyd braich wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru a'i chartrefu ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Nodau strategol cyfredol y Ganolfan yw:

- Datblygu rhaglen arloesol o gyrsiau deniadol ac addas ar gyfer dysgwyr, gan wneud defnydd llawn o'r dechnoleg ddiweddar
- Datblygu cynlluniau arloesol i sicrhau cyfleoedd a chyd-destunau ble gall dysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg yn hyderus
- Sefydlu rhwydwaith o ddarparwyr i gynnig gwasanaeth o ragoriaeth
- Codi proffil y sector a chynyddu'r niferoedd sy'n dechrau cyrsiau ac yn parhau i ddysgu Cymraeg
- Sefydlu a chynnal gweithdrefnau i gynorthwyo gwasanaethau

Ailstrwythurodd y Ganolfan ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion ledled Cymru gan sefydlu 11 darparwr Dysgu Cymraeg. Mae'n cyllido'r darparwyr Dysgu Cymraeg hyn i gynnig arlwy Cymraeg i oedolion o fewn eu cymunedau. Yn ystod 2018-2019 ymrestrodd 13,260 o ddysgwyr unigryw ar gyrsiau Dysgu Cymraeg a chynhaliwyd 20,330 o weithgareddau dysgu.

Mae'r Ganolfan yn derbyn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen Cymraeg Gwaith sy'n anelu at gryfhau medrau dwyieithog cyflogeion yn y gweithle. Mae 1,329 o gyflogwyr unigryw wedi manteisio ar y Cynllun ers ei gychwyn yn 2017. Dilynwyd oddeutu 30,000 o weithgareddau dysgu gan ddysgwyr Cymraeg Gwaith hyd yma gyda'r niferoedd yn cynyddu flwyddyn ar flwyddyn. Bu gostyngiad sylweddol yng nghyllid Cymraeg Gwaith yn 2020-21.

Cyhoeddodd Estyn adroddiad 'Adolygiad o waith y Ganolfan Dysgu Cymraeg' Genedlaethol ym Mehefin 2017. Gellir dod o hyd i'r adroddiad a'i argymhellion yma.

Adolygiad o waith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol 2017

## Crynodeb

Mae gan y Ganolfan weledigaeth glir i weddnewid tirlun ieithyddol Cymru drwy gefnogi dysgwyr i ddod yn ddefnyddwyr y Gymraeg o fewn eu cymunedau, gweithleoedd a rhwydweithiau, beth bynnag fo eu lefel ieithyddol. Mae'r Ganolfan yn cyfrannu'n effeithiol at nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Ers ei sefydlu mae'r Ganolfan wedi datblygu i fod yn llais cenedlaethol, dylanwadol i'r sector. Mae wedi llwyddo i greu ystod eang o bartneriaethau strategol gyda sefydliadau cenedlaethol i ymestyn y cynnig dysgu ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r Ganolfan wedi manteisio ar y partneriaethau cadarn hyn i gynnig arlwy amrywiol a chyffrous o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio eu medrau ieithyddol boed hynny yn gymdeithasol, diwylliannol neu'n broffesiynol. Mae'r Ganolfan yn dod yn ffocws cynyddol i weithgareddau sydd yn allweddol i ymdrechion cynllunio ieithyddol ar draws sectorau targed gwahanol.

Mewn cyfnod byr, mae'r Ganolfan wedi llwyddo i gysoni darpariaeth Dysgu Cymraeg ar draws Cymru. Mae wedi datblygu platfform digidol i fod yn gyfrwng hwylus a hygyrch i ddysgwyr ei ddefnyddio wrth chwilio am gwrs, ymrestru a thalu. Defnyddir y platfform yn greadigol drwy ddarparu cyrsiau a llu o adnoddau digidol, yn ogystal â chynnig llwyfan i ymarferwyr y sector rannu arferion da a chynnal datblygiad proffesiynol parhaus gwerthfawr. Mae'r Ganolfan wedi creu cwricwlwm a chwrs lyfrau cenedlaethol am y tro cyntaf yn hanes y sector. Mae uwch swyddogion y Ganolfan yn cynnig arweiniad arloesol ac ysbrydoledig i'r sector. Profwyd hyn yn ddiamwys yn ymateb effeithiol a chwim y sector i heriau'r pandemig pan drosglwyddwyd y rhan fwyaf o ddarpariaeth y sector i fod ar lein o fewn mater o wythnosau. Mae'r Ganolfan wedi datblygu perthynas waith adeiladol a chefnogol gyda darparwyr Dysgu Cymraeg sy'n eu galluogi i gynnal trafodaethau gonest a heriol pan fo angen.

Mae gan arweinwyr adnabyddiaeth gref o'r cryfderau a meysydd i'w gwella yn y sector. Mae gan y Ganolfan a'i sefydliad cartref weithdrefnau monitro a chraffu cadarn. Mae'r Ganolfan yn cynllunio'n fwriadus a thrylwyr i ddarparu cyrsiau ar bob lefel wrth ymateb yn llwyddiannus i anghenion dysgwyr a blaenoriaethau cenedlaethol.

Mae llais y dysgwr yn greiddiol i waith a gweledigaeth y Ganolfan. Mae arweinwyr y Ganolfan yn blaengynllunio'n effeithiol iawn ac wedi cynnig arweiniad cadarn a phendant ers ei sefydlu gan gadw budd dysgwyr yn ganolog i'w holl weithgarwch.

## Argymhellion

A1 Rhannu methodoleg addysgu a chaffael ail iaith llwyddiannus gyda sectorau perthnasol eraill i gefnogi nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg gweithredol erbyn 2050

A2 Parhau i weithio gyda darparwyr Dysgu Cymraeg i ddatblygu modelau o ddarpariaeth ar sail argaeledd dysgwyr

A3 Gwireddu'r Cynllun Datblygu Gweithlu drwy gyfrwng Academi fel ffocws i hyfforddiant a datblygiad proffesiynol yn y sector


## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaethau achos ar ei waith mewn perthynas â sut mae sefydlu corff cenedlaethol wedi darparu ffocws i'r sector ehangu ei darpariaeth ffurfiol ac anffurfiol drwy greu a chynnal partneriaethau strategol gydag amrywiaeth o gyrff sydd yn llwyddo i droi dysgwyr yn ddefnyddwyr y Gymraeg; yn ogystal ag astudiaeth achos arall ar sut mae creu platfform digidol wedi galluogi'r sector i gysoni darpariaeth yn genedlaethol, rhannu arferion da ac ymateb yn llwyddiannus i'r pandemig drwy raglenni dysgu o bell, i'w lledaenu ar wefan Estyn.


## Prif ganfyddiadau

### Crynodeb o ddeilliannau arolygu darparwyr Dysgu Cymraeg


Safonau





Lles ac agweddau at ddysgu





Addysgu a phrofiadau dysgu





Gofal, cymorth ac arweiniad




Arweinyddiaeth a rheolaeth






Rhwng Ionawr 2018 a Mai 2020 arolygwyd pedwar darparwr Dysgu Cymraeg ar draws Cymru. Barnwyd pob maes arolygu yn dda neu'n well ym mhob un o'r darparwyr a arolygwyd.

Yn gyffredinol, mae safonau dysgwyr yn dda gyda llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cryf yn unol â'u lefel. Maent yn datblygu ystod o fedrau ieithyddol yn llwyddiannus, gyda'r prif bwyslais ar ddatblygu llafaredd a'r hyder i siarad Cymraeg mewn cyd-destunau defnyddiol ac ystyrlon. Mae dysgwyr ar lefelau canolradd ac uwch yn gwneud cynnydd pwrpasol iawn wrth ddatblygu eu medrau siarad. Maent yn siarad gyda rhuglder datblygol ac yn defnyddio ystod gynyddol o amseroedd, ffurfiau berfau a geirfa. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr lefel hyfedredd yn dod yn siaradwyr ac ysgrifenwyr rhugl a chroyw gan gynhyrchu iaith aeddfed a soffistigedig sy'n dangos huodledd a hyblygrwydd ieithyddol.

Ar y cyfan, mae dysgwyr yn caffael y Gymraeg yn gyflymach ac yn fwy effeithiol na disgyblion ar y lefelau cyfatebol mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg. Mae tiwtoriaid yn canolbwyntio'n glir ar wella safonau llafaredd, sydd yn ei dro, yn arwain at ddysgwyr yn dod yn fwyfwy hyderus yn eu defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig deall a siarad yr iaith. (Adroddiad blynyddol Prif Arolygydd ei Mawrhydi 2018-19: Addysg a hyfforddiant ôl-16 T.62)

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn gwneud defnydd rhagorol o'r Gymraeg wrth drochi dysgwyr yn yr iaith. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu perthnasoedd gweithio hynod gadarnhaol gyda dysgwyr ac yn cynllunio gwersi'n effeithiol i fodloni anghenion dysgwyr. Maent yn amrywio gweithgareddau yn ystod gwersi'n fedrus ac yn codi hwyl wrth gyflwyno ac ymarfer iaith. Mae'r rhan fwyaf yn rhoi adborth adeiladol i ddysgwyr i'w helpu i wella'u medrau. Mae darparwyr Dysgu Cymraeg yn pwysleisio'n gadarn bod y broses o ddysgu'r Gymraeg yn dechrau yn y dosbarth a'i bod yn datblygu ymhellach drwy ymarfer a defnyddio'r iaith mewn gweithgareddau anffurfiol. I'r perwyl hwn, mae'r darparwyr yn cynnwys ystod gynhwysfawr o gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ymarfer yr iaith.

Mae agweddau cadarnhaol iawn dysgwyr at ddefnyddio eu Cymraeg yn nodwedd gref iawn. Barnwyd y maes arolygu 'Lles ac agweddau at ddysgu' yn rhagorol mewn tri o'r pedwar darparwr. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn uchelgeisiol gan ddangos cymhelliant cryf a brwdfrydedd heintus ynghylch dysgu Cymraeg. Maent yn ymrwymo i'r broses o gaffael yr iaith yn benderfynol ac yn glir iawn ynglŷn â'u rhesymau dros ddysgu'r iaith. Ceir achosion eithriadol o ddysgwyr yn teithio'n bell er mwyn mynychu gwersi. Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn mwynhau eu dysgu'n fawr a chyfrannu'n rhagweithiol i'w dysgu. Mae darparwyr Dysgu Cymraeg yn gymunedau clòs a gofalgar ac mae dysgwyr yn cefnogi'r ethos hwn, ac ei gilydd, drwy gynorthwyo ac annog cyd-ddysgwyr yn sensitif i ddefnyddio ac ehangu eu medrau Cymraeg. Ar draws y darparwyr, mae llawer o ddysgwyr yn gwneud ymdrech nerthol i fanteisio ar gyfleoedd i roi'r hyn maent wedi'i ddysgu mewn gwersi ar waith y tu allan i ddosbarthiadau ffurfiol. O ganlyniad, maent yn dechrau dod yn rhan o'r gymuned ehangach sy'n siarad Cymraeg. Yn yr enghreifftiau gorau, mae dysgwyr yn cymryd cyfrifoldeb dros drefnu cyfleoedd allgyrsiol iddyn nhw eu hunain ac eraill i gymdeithasu a chyfranogi mewn gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae darparwyr Dysgu Cymraeg yn cefnogi lles dysgwyr drwy ddarparu gofal, cymorth ac arweiniad pwrpasol ac effeithiol i ddysgwyr. Mae darparwyr yn llwyddo i greu amgylchedd dysgu cynhwysol a chefnogol sy'n annog dysgwyr i ymarfer eu medrau iaith heb ofni gwneud camgymeriadau. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn llwyddo, gyda chymorth sefydliadol y darparwr, i ddiwallu gofynion addysgol ac anghenion personol unigol dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cynorthwyo dysgwyr yn effeithiol i osod targedau personol defnyddiol, gwerthuso cynnydd, a chynllunio camau nesaf eu dysgu. Mae'r elfen hon wedi cryfhau yn ystod y cylch arolygu presennol.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr a rheolwyr wedi sefydlu gweledigaeth glir a nodau strategol pwrpasol sy'n gyson â chynlluniau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Maent yn canolbwyntio'n effeithiol ar sut i wella darpariaeth er mwyn gwella profiadau dysgwyr. Maent yn llwyddo i sicrhau bod y dysgwyr wrth graidd eu holl waith a'u penderfyniadau. Mae arweinwyr yn deall eu cryfderau a meysydd i'w gwella'n briodol ac yn cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol defnyddiol i staff. Yn yr enghreifftiau gorau, mae darparwyr Dysgu Cymraeg yn cyflawni swyddogaeth allweddol a chreiddiol yng nghynlluniau strategol eu sefydliadau cartref i hyrwyddo'r Gymraeg yn unol â pholisïau Llywodraeth Cymru.

**Cynllunio darpariaeth**

Mae gweledigaeth strategol y Ganolfan yn arwain at gynllunio bwriadus i weithredu'n rhagweithiol i fodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned ynghyd ag anelu at gyflawni targedau strategaeth Llywodraeth Cymru Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr. Mae anghenion dysgwyr yn greiddiol i'r holl weithgarwch gyda'r amcan strategol o 'ddatblygu rhaglen arloesol o gyrsiau atyniadol ac addas i ddysgwyr gan wneud defnydd llawn o'r dechnoleg ddiweddaraf', yn cael ei wireddu'n llwyddiannus.

Mae'r swyddogion canolog a lleol yn cynllunio arlwy eang a chyfoethog o gyrsiau wrth ddilyn canllawiau rhaglenni dysgu sy'n ymateb yn gyson i anghenion dysgwyr. Drwy gasglu barn dysgwyr drwy gyfrwng holiadur cenedlaethol 'Dweud eich Dweud', gweithredir yn ddiwyd i addasu ac esblygu'r ddarpariaeth er mwyn cymell a chefnogi dysgwyr i fod yn siaradwyr gweithredol. Defnyddir grant Llywodraeth Cymru yn

fedrus wrth gynllunio rhaglen gynhwysfawr ar gyfer dysgwyr y brif ffrwd mewn cydweithrediad â darparwyr Dysgu Cymraeg. Yn ogystal, derbynia'r Ganolfan grant ychwanegol ar gyfer rhaglen Cymraeg Gwaith sy'n anelu at gryfhau medrau dwyieithog gan ddysgu cyflogeion yn y gweithle. Datblygwyd cronfa grant arloesi sydd yn effeithiol wrth gefnogi dysgwyr eraill yn y gymuned, er enghraifft wrth ddarparu rhaglen gynhwysfawr i rieni a cheiswyr lloches a ffoaduriaid i ddysgu'r Gymraeg.

Mae'r Ganolfan wedi datblygu cwricwlwm a chwrs lyfrau cenedlaethol sydd yn sicrhau cysondeb i ddysgwyr wrth iddynt ddysgu Cymraeg. Mae hyn wedi caniatáu i'r swyddogion canolog ddarparu cwrs lyfrau cyfoes gydag ystod eang o adnoddau gwerthfawr ar lein i'w cefnogi, sy'n hyrwyddo'r dysgu a'r addysgu'n effeithiol. Defnyddir yr adnoddau rhyngweithiol hyn, er enghraifft adnoddau fideo a sain, fel rhan o'r ddarpariaeth dysgu wyneb yn wyneb ac hunan-astudio, sy'n ehangu profiad cadarnhaol y dysgwr wrth ddysgu Cymraeg.

Mae arbenigedd, brwdfrydedd a phrofiad gwerthfawr y swyddogion canolog yn allweddol wrth flaengynllunio'n bwrpasol i ddarparu cyrsiau eang sy'n diwallu anghenion dysgwyr ar bob lefel. Er enghraifft, mae cyrsiau blasu wedi eu cynllunio i roi rhagflas i ddysgwyr o ddysgu'r Gymraeg. Yn ogystal, mae cyrsiau prif ffrwd yn hyrwyddo dysgwyr newydd drwy gyrsiau mynediad, a darperir cyrsiau ar bob lefel ar y continwwm ieithyddol hyd at gyrsiau hyfedredd i gefnogi dysgwyr sy'n hyderus yn eu medrau ieithyddol. Mae'r arlwy gynhwysfawr yn diwallu anghenion dysgwyr Cymraeg yn hynod effeithiol.

Mae'r cynllun Cymraeg Gwaith yn darparu arlwy eang a chynhwysfawr, sy'n cynnwys cyrsiau megis Defnyddio Cymraeg Gwaith, Dysgu Cymraeg Gwaith Iechyd a Gofal, Dysgu Cymraeg Gwaith Prentisiaid, Dysgu Cymraeg Busnes a Chynllun Hyfforddi Dysgu Cymraeg Blynyddoedd Cynnar. Mae'r cynllun Cymraeg Gwaith wedi arloesi'n ddigidol, gan ddatblygu modiwlau hunan-astudio ar-lein, gyda nifer o'r rheiny wedi eu teilwra at anghenion gwahanol. Yn ychwanegol at hyn, mae cyrsiau Cymraeg Gwaith hunan-astudio ar-lein newydd yn cyfrannu'n effeithiol at ymgysylltu â gwahanol grwpiau o ddysgwyr. Drwy gyfrwng y cyrsiau hyn, maent yn cyfrannu'n effeithiol at ddiwallu anghenion dysgwyr ynghyd ag ymateb yn fwriadus i ddyheadau cyflogeion mewn gwahanol sectorau allweddol o ran y targed cenedlaethol o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg.

Mae swyddogion y Ganolfan wedi datblygu platfform digidol dros gyfnod i fod yn gyfrwng hwylus a hygyrch i ddysgwyr ei ddefnyddio, er enghraifft wrth chwilio am gwrs sy'n addas ar gyfer eu lefel ieithyddol, i ymrestru a thalu. Mae hyn yn cefnogi dysgwyr yn effeithiol wrth iddynt ddewis rhaglen ddysgu wrth ddechrau dysgu Cymraeg ac wrth ddewis llwybr dilyniant. Yn ddiweddar, mae'r Ganolfan wedi arbrofi gyda chofrestru dysgwyr yn genedlaethol a chydweithio â darparwyr i gynnig cyrsiau yn eu hardaloedd ar adegau sy'n gyfleus i'r dysgwyr hynny. Mae hyn yn gam pendant ymlaen yn y broses o roi dysgwyr yn ganolog wrth lunio darpariaeth ar sail argaeledd dysgwyr yn bennaf.

Caiff strategaeth farchnata a chyfathrebu genedlaethol fanwl ei gweithredu'n hynod lwyddiannus sy'n ennyn a chynnal dysgwyr i ddysgu Cymraeg. Drwy gydweithio effeithiol, mae'r ymgyrch i sicrhau delwedd gyson o 'DysguCymraeg.Cymru/Learn Welsh.Cymru' yn rhan o ymgyrchu creadigol a rhagweithiol y Ganolfan. Mae

ymgyrchoedd i hyrwyddo dysgu Cymraeg megis Pencampwriaeth y Chwe Gwlad a Dydd Miwsig Cymru, yn llwyddo i godi proffil a delwedd yr iaith gyda chynulleidfa ehangach, sydd yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar nifer y dysgwyr sy'n dewis dysgu Cymraeg.

Cynllunnir yn fedrus i ymgysylltu â gwahanol grwpiau o ddysgwyr. Mae gweithgareddau sy'n trafod bywydau duon o bwys, yn enghraifft o ymdrech fwriadus y swyddogion a rheolwyr i ddarparu gweithgareddau cyfoes ac amrywiol sy'n ymestyn at bob dysgwr yn lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae swyddogion y Ganolfan yn cefnogi darparwyr cwrs i gynllunio gweithgareddau sy'n hyrwyddo'r dysgwyr i ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i weithgareddau ffurfiol, er enghraifft mewn gweithgareddau Sadwrn Siarad, sesiynau coginio, clybiau darllen rhithiol a thrwy fynychu cyngherddau a digwyddiadau celfyddydol. Caiff y cynllun Siarad ei ddefnyddio'n llwyddiannus wrth i ddysgwyr ymarfer defnyddio'u Cymraeg gyda phartner a dod yn gynyddol hyderus i siarad yr iaith.

Mae cydweithrediad blaengar y Ganolfan gydag ystod eang o bartneriaid cenedlaethol yn cyfoethogi profiad dysgwyr o ddysgu Cymraeg ynghyd â'u cofleidio yn hanes a diwylliant Cymru. Mae'r profiadau hyn o ennyn a chynnal dysgwyr mewn gweithgareddau go iawn yn y gymuned leol a chenedlaethol yn arwain at gymell dysgwr mewn amgylchedd cynhwysol. Er enghraifft, mae Wythnos Dysgu Cymraeg a ddarperir gyda chefnogaeth Radio Cymru yn rhoi cyfle i ddysgwyr gyfathrebu gyda siaradwyr sy'n rhugl yn y Gymraeg ac yn codi proffil dysgu'r iaith. O ganlyniad, mae hyn oll yn arwain at ddarparu cyrsiau ehangach i ddysgwyr newydd a'r rheiny sydd am barhau i ddysgu'r Gymraeg.

Cynhwysir y defnydd o dechnoleg i ehangu mynediad a gwella profiadau dysgwyr yn fwyfwy llwyddiannus wrth ddatblygu'r platfform digidol, er enghraifft. Mae'r Fframwaith Digidol yn amlinellu'n fanwl y ddarpariaeth sy'n cael ei datblygu er mwyn hyrwyddo'r dysgu a'r addysgu ymhellach, er enghraifft y ddarpariaeth dysgu wyneb yn wyneb a dysgu o bell. Yn dilyn toriad mewn grant yn ddiweddar, gweithiodd y swyddogion canolog yn ddiwyd a diflino i drawsnewid y ddarpariaeth i fod yn gwbl ddigidol, yn cynnwys darpariaeth Cymraeg Gwaith, mewn amser byr iawn. Roedd y trawsnewidiad hwn yn arloesol gyda blaengynllunio pwrpasol yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau i gael ei chynnig mewn dull amgen. Darparwyd Canllawiau Dysgu Rhithiol gan y swyddogion canolog er mwyn sicrhau cysondeb cenedlaethol yn y dysgu a'r addysgu.

Mae'r Ganolfan yn monitro bod darparwyr yn gweithredu trefniadau diogelwch manwl sy'n cynnwys gwybodaeth eang o bolisïau a gweithdrefnau i gadw'r dysgwyr yn ddiogel. Er enghraifft, mae polisïau lles a bugeilio yn cael eu cynnwys o fewn llawlyfr y dysgwr. Mae'r swyddogion canolog yn cefnogi darparwyr i ddarparu'n addas ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion dysgu penodol megis dyslecsia ac anableddau corfforol mewn amgylchedd dysgu diogel a chynhwysol.

## Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr

Mae ethos a chenhadaeth glir gan y Ganolfan, sef gweddnewid sefyllfa ieithyddol Cymru drwy greu siaradwyr Cymraeg gweithredol; pobl sy'n defnyddio eu Cymraeg yn eu cymunedau, gweithleoedd a rhwydweithiau beth bynnag fo eu lefel ieithyddol.

Mae hyn yn treiddio drwy holl weithgarwch ac agweddau ei staff a darparwyr Dysgu Cymraeg. Dengys arolygiadau craidd darparwyr Dysgu Cymraeg bod safonau ac agweddau dysgwyr yn gyson gryf ar draws y sector a bod staff yn cyflawni eu swyddogaethau gydag angerdd ac argyhoeddiad. Mae uwch-reolwyr y Ganolfan yn cynnig arweiniad ysbrydoledig i'r sector sy'n darparu arweiniad strategol clir ac effeithiol. Maent hefyd yn llwyddo i gyflawni ystod eang o weithgareddau a chyflwyno datblygiadau arloesol gydag ychydig o staff gyda chefnogaeth weithredol ddefnyddiol gan y sefydliad cartref, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Mae cynllunio strategol yn gryfder amlwg ac yn sail gadarn i weithredu er mwyn cyflawni amcanion a dyheadau'r Ganolfan. Mae gweledigaeth y Ganolfan yn ddiamwys ac yn cyd-fynd ag amcanion a blaenoriaethau polisi cenedlaethol.

Mae'r Ganolfan wedi llwyddo i ddatblygu perthynas waith adeiladol a chynhyrchiol gyda darparwyr Dysgu Cymraeg a thrwy weithredu'n gadarnhaol mae wedi llwyddo i gysoni darpariaeth drwy'r sector er budd y dysgwyr, er enghraifft cysoni ffioedd ar draws yr holl ddarparwyr am y tro cyntaf. Mae arweinwyr wedi cynnig arweiniad buddiol iawn drwy greu cwricwlwm a chwrs lyfrau cenedlaethol cyffrous a chyfoes am y tro cyntaf yn hanes y sector. Yn ogystal, mae'r Ganolfan yn cynnig arweiniad strategol ac ymarferol cadarn i'r sector drwy bwyllgorau a grwpiau sy'n ymwneud â themâu o bwys strategol.

Enghraifft o arweiniad rhagorol y Ganolfan yw ymateb chwim ac effeithiol y sector ar gychwyn y pandemig. Oherwydd dyfalbarhad a blaengynllunio pendant, bwriadus roedd y Ganolfan eisoes yn meddu ar blatfform digidol. Bu'n ganolog i hwyluso symud y rhan fwyaf o ddarpariaeth y sector ar lein o fewn mater o wythnosau. Llwyddodd y Ganolfan i gyflawni hyn gyda chydweithrediad brwd a phroffesiynol y darparwyr unigol. Erbyn dechrau mis Mai roedd 89 o ddosbarthiadau cyfunol newydd wedi cychwyn ar draws Cymru gyda bron 900 o ddysgwyr newydd. Yn ychwanegol at hynny, cynhaliwyd gwersi a sesiynau byw ar gyfryngau cymdeithasol a ddenodd filoedd o ddysgwyr ar draws Cymru a'r byd. O ganlyniad, ac er gwaetha'r pandemig, mae'r Ganolfan wedi llwyddo i gynyddu nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg.

Mae'r Ganolfan wedi cymryd cam strategol pwrpasol i sefydlu ei hun yn gyhoeddwr ystadegau swyddogol er mwyn ei galluogi i gynhyrchu data cenedlaethol cyson am y tro cyntaf yn y sector a'i ddefnyddio'n effeithiol at ddibenion cynllunio. Dengys data cenedlaethol bod niferoedd dysgwyr unigol a gweithgareddau dysgu yn cynyddu, gan gynnwys y nifer ar gyrsiau dwys, gyda llawer o ddysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau ac yn parhau i ddysgu. Maent yn presenoli'n dda ac yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu gyda'r rhan fwyaf ohonynt o'r farn bod y dysgu yn eu helpu i gyflawni eu nodau fel dysgwyr Cymraeg. Mae gwaith o ddatblygu systemau coladu a dadansoddi data yn parhau'n briodol gyda'r nod o archwilio tueddiadau cyflawni dysgwyr er mwyn gwella darpariaeth y sector ar eu cyfer.

Mae strategaeth farchnata a chyfathrebu effeithiol a chreadigol y Ganolfan yn denu cynulleidfaoedd newydd o ddysgwyr. Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n bwrpasol ar greu ymgyrchoedd sy'n seiliedig ar ymchwil farchnad a dadansoddi trwyadl iawn i ddenu darpar ddysgwyr newydd.

Mae'r Ganolfan yn cyd-weithio'n werthfawr gyda darparwyr i sicrhau cyfleoedd buddiol i ddysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg y tu allan i wersi ffurfiol. O ganlyniad,

ychydig iawn o ddysgwyr yn unig sy'n nodi nad ydynt yn ymarfer eu sgiliau ieithyddol y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae hyn yn ganolog i weledigaeth y sector o greu siaradwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg yn hytrach na dysgwyr goddefol. Mae'r Ganolfan yn gweithio gyda darparwyr yn effeithiol i sicrhau bod ystod eang o gyrsiau ar gael drwy Gymru a bod darpariaeth briodol ar gyfer grwpiau penodol sy'n bodloni anghenion dysgwyr.

Mae rhaglenni Cymraeg Gwaith yn enghraifft nodedig o greu cyfleoedd yn greadigol ar gyfer grwpiau penodol o gyflogeion ar draws sectorau amrywiol. Mae'r cynllun hwn wedi denu nifer sylweddol o gyflogwyr ac yn rhan annatod o weledigaeth y Ganolfan a'i phartneriaid allweddol i drawsnewid y sefyllfa ieithyddol yng Nghymru**.** Mae gan y Ganolfan weithdrefnau clir ac effeithiol ar gyfer comisiynu, cydlynu, goruchwylio a monitro gwasanaethau neu ddarpariaeth sydd wedi'u contractio.

Enghraifft arall o ymagwedd arloesol y Ganolfan yw'r bartneriaeth gyda CBAC i beilota cynnal arholiadau Cymraeg i Oedolion eleni, serch y cyfyngiadau a goblygiadau pellhau cymdeithasol, drwy gyflwyno goruchwylio o bell am y tro cyntaf.

Mae'r Ganolfan yn llwyddo'n effeithiol iawn i greu ystod eang a chyfoethog o bartneriaethau i gynnig cyfleoedd amrywiol i bobl ddysgu a defnyddio'r iaith Gymraeg mewn cyd-destunau ystyrlon. Mae wedi sefydlu ei hun fel un llais dylanwadol i'r sector sy'n ei galluogi i ddylanwadu'n strategol ar waith amrywiaeth o bartneriaid cenedlaethol. O ganlyniad, mae'r Ganolfan yn cyfrannu'n werthfawr at fentrau amrywiol i ymestyn defnydd o'r Gymraeg gan gynnwys hyfforddiant iaith i sectorau targed sydd yn allweddol o ran cynllunio ieithyddol ar gyfer gweithlu'r dyfodol. Yn ogystal, mae'r Ganolfan wedi datblygu partneriaethau gyda darparwyr annibynnol sydd yn ehangu'n fuddiol ar y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr.

Mae arweinwyr y Ganolfan Genedlaethol yn gweithredu'n gadarn pan fo angen ac yn gwneud penderfyniadau anodd. Er enghraifft, drwy reoli perfformiad a gwariant darparwyr, yn ogystal â'u penderfyniad gweithredol diweddar i ddargyfeirio cyllid yn briodol.

Mae strwythurau llywodraethiant cadarn gan y Ganolfan. Mae'r bwrdd cwmni a'r bwrdd ymgynghorol yn cynnig cymorth defnyddiol ar faterion cyfansoddiadol a chorfforaethol yn ogystal â chynghori'n fuddiol ar faterion polisi drwy gyfrwng trafodaethau heriol ac adeiladol. Mae'r trafodaethau yn canolbwyntio'n werthfawr ar brif amcanion y Ganolfan.

### Prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella

Mae gan arweinwyr a rheolwyr y Ganolfan adnabyddiaeth gref o'r cryfderau a meysydd i'w gwella yn y sector Cymraeg i Oedolion. O ganlyniad i brosesau hunanarfarnu, monitro a sicrhau ansawdd grymus mae gan arweinwyr a rheolwyr ymwybyddiaeth lawn o ansawdd y ddarpariaeth yn y sector. Lluniwyd fframwaith ansawdd cyffredin, 'Y Fframwaith Ansawdd Cenedlaethol', sy'n arf pwerus i gysoni'r ffordd mae pawb yn y sector bellach yn hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella.

Mae arfarnu yn rhan o gylch gwella parhaus y Ganolfan. Cefnogir y broses gan wybodaeth berthnasol am berfformiad a thystiolaeth o adroddiadau perfformiad, adroddiadau cynnydd a dadansoddiadau data a ddarperir i'r pwyllgorau a byrddau

priodol deirgwaith y flwyddyn. Mae'r cyfarfodydd tymhorol yn greiddiol i'r broses er mwyn mesur cynnydd a phennu blaenoriaethau. Mae'r dogfennau yn rhai byw a gweithredol sydd yn esblygu a datblygu ar sail arfarnu miniog a thrwyadl.

Mae cynnwys rhanddeiliaid allweddol ac ystyried eu barnau yn rhan annatod o brosesau arfarnu a chynllunio ar gyfer gwella'r Ganolfan. Maent yn rhoi pwyslais pendant ar gywain llais dysgwyr, darparwyr a phartneriaid. Er enghraifft, ar ôl edrych ar dueddiadau yn fframweithiau ansawdd y darparwyr gwelwyd bod gosod targedau ystyrlon yn Defnyddio fy Nghymraeg yn faes datblygu. Ar sail cydnabod arfer dda un darparwr mewn arolygiad aeth y Ganolfan ati i addasu'r ddarpariaeth drwy greu cynllun digidol yn hytrach na defnyddio llyfryn caled. O droi'n ddigidol gwelwyd ei bod hi'n haws gosod targedau ystyrlon ar gyfer pob lefel gan gynnwys cyfeirio'r dysgwyr at adnoddau perthnasol i'w cefnogi i ddefnyddio eu Cymraeg. Mae'r addasiad hwn wedi hwyluso'r broses i diwtoriaid ar draws Cymru i olrhain cynnydd dysgwyr. Yn ogystal, mae'r Ganolfan yn gallu adnabod bylchau yn y ddarpariaeth a chydnabod arferion da.

Medda'r Ganolfan ar berthynas gref ac adeiladol gyda sawl partneriaeth ddylanwadol. Mae'r partneriaethau grymus hyn yn cefnogi'r Ganolfan i wireddu ei hamcanion strategol drwy gyfrannu'n benodol at sicrhau gwelliannau parhaus i ansawdd y ddarpariaeth i ddysgwyr. Ymhlith y gwelliannau hyn, mae cynnwys cyrsiau math newydd gan Mudiad Meithrin, a chreu'r gyfres gynhwysfawr 'Amdani' o lyfrau darllen wedi'u graddoli gan y Cyngor Llyfrau. Yn ogystal, datblygwyd cynlluniau ar y cyd ar gyfer Pentref Dysgu Cymraeg yr Eisteddfod Genedlaethol, 'AmGen' a gwobr Dysgwr yr Ŵyl Amgen. Drwy'r holl gynlluniau blaengar a chreadigol hyn llwyddwyd i wireddu un o nodau creiddiol y Ganolfan, sef, creu cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer eu hiaith a magu hyder i'w siarad hi.

Mae llais y dysgwr yn ganolog i waith a gweledigaeth feunyddiol y Ganolfan o osod y dysgwr yn y canol. Defnyddir prosesau llais y dysgwyr yn lleol ac yn genedlaethol yn effeithiol iawn er mwyn arfarnu'r ddarpariaeth. Mae'r dysgwr yn ganolog i'r holl broses arfarnu a chymerir safbwyntiau'r dysgwyr o ddifrif. Ceir llu o enghreifftiau o sut yr addaswyd y ddarpariaeth ar sail ymateb i gywain barn y dysgwyr. Er enghraifft, ymatebwyd i gais y dysgwyr i gynnwys adrannau crynhoi gramadeg yng nghefn cwrs lyfrau. Er mwyn ychwanegu at y cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau cefnogi crëwyd cylchgrawn safonol i annog dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg dros yr haf.

Cefnoga'r Ganolfan les a gofal y gweithlu drwy gynnig rhaglen lles ac iechyd meddwl gydag arbenigwr allanol yn y maes. Mae cyfranogiad yn y rhaglen, sy'n cynnwys ymdopi â newid, gwydnwch meddwl a gofalu am les wrth weithio o gartref, wedi bod yn uchel iawn.

Mae gan y Ganolfan broses gydlynus a thynn o gynllunio gwelliant. Arweinia'r Cynllun Strategol at lunio cynllun gweithredu blynyddol ar yr un pryd ac y crëir y cynllun gweithredu cyllidol. Ceir enghreifftiau penodol o'r Ganolfan yn gweithredu'n rhagweithiol a chyflym iawn pan fo blaenoriaethau yn y cynllun gweithredu yn newid. Enghraifft benodol o hyn fu creu cynllun dysgu Cymraeg digidol ar ddechrau cyfnod y pandemig.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn sicrhau bod blaenoriaethau yn cael eu cefnogi'n effeithiol drwy ddyrannu adnoddau, diffinio camau gweithredu perthnasol a mesuradwy ar gyfer gwella. Mae'r cynlluniau yn cynnwys amserlenni penodol a realistig ac yn dyrannu cyfrifoldeb priodol am eu cyflawni. Addasir y blaenoriaethau hefyd yn unol ag arfarnu effeithiol o'r prif ffactorau sydd yn gwella'r ddarpariaeth i ddysgwyr. Er enghraifft, heriodd y bwrdd ymgynghorol y Ganolfan i ystyried opsiynau amgen o farchnata darpariaeth Dysgu Cymraeg i oedolion yn dilyn toriad cyllidol. Ailedrychwyd ar ddulliau hyrwyddo eraill gan droi at y cyfryngau cymdeithasol, a fu'n llwyddiant ysgubol. Mae'r Ganolfan yn effeithiol iawn wrth bwyso a mesur effeithlonrwydd gwario arian a newid y gwariant i gyd-fynd ag unrhyw flaenoriaethau cyfoes. Gwelwyd, er enghraifft, bod trosi unedau cwrs i fod yn gyfunol yn drwm o ran adnoddau dynol ac ymestynnwyd y buddsoddiad yn y gwaith hynny er mwyn cyflawni'r nod.

Ceir trefniadau rheoli perfformiad tynn gan y Ganolfan lle y dyrennir adnoddau i gefnogi anghenion hyfforddiant i gyd-fynd ag anghenion y gweithlu.

Mae'r Ganolfan wedi darparu arweiniad a chymorth gwerthfawr i ddarparwyr unigol wrth iddynt ymateb yn effeithiol i argymhellion arolygiadau Estyn. Cyflawnir hyn drwy greu cynlluniau gweithredu pwrpasol a chlir. Cynhwysir gweithredoedd, targedau mesuradwy, cyllid i gefnogi'r camau gweithredu, dyddiadau penodol a dulliau monitro synhwyrol. O ganlyniad, gwelwyd gwelliant pendant o ran ymateb y sector yn ystod y cylch arolygu i feysydd i'w datblygu a glustnodwyd mewn argymhellion arolygiadau craidd darparwyr.

Mae ansawdd cynlluniau gweithredu'r darparwyr, yn gyffredinol yn fanwl ac effeithiol. Mae swyddogion y Ganolfan yn ymweld â'r darparwyr i sicrhau bod y gweithredu wedi digwydd ac mae cynnydd y cynllun yn cael ei drafod yn y cyfarfod monitro. Er mwyn annog rhannu arferion da ansawdd ymysg darparwyr mae pwyllgor ansawdd wedi ei sefydlu sy'n cwrdd unwaith y tymor. Yma, mae cyfle i ddarparwyr rannu arferion da a chytuno ar strwythurau a chynlluniau cenedlaethol i sicrhau cysondeb a safonau lefel uchel. Enghraifft o ganlyniad y trafodaethau hyn yw sefydlu cynllun arsylwi cyson cenedlaethol a ddilynir gan bob darparwr.

Ers sefydlu'r Ganolfan cymerwyd camau breision i gyflawni ei nodau strategol mewn cyfnod byr. Codwyd proffil y sector a chrëwyd argraff bositif o ddysgu'r Gymraeg. Tystiolaeth gadarn o hynny yw'r ffaith bod y nifer sydd wedi cofrestru ar gyrsiau dysgu Cymraeg a'r gweithgareddau dysgu a gynhelir wedi cynyddu'n gadarnhaol iawn. O ganlyniad i sefydlu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ceir cysondeb bellach ar draws y sector o ran darpariaeth a phrosesau. Am y tro cyntaf yn y sector, cyflawnwyd camp uchelgeisiol iawn o gyflwyno cwricwlwm cytûn i bob dysgwr yng Nghymru.

**Dysgu proffesiynol**

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn sefydliad sydd yn cynnig arlwy eang a chanolog o brofiadau dysgu proffesiynol sy'n sicrhau bod dysgwyr yn derbyn addysgu o'r radd flaenaf ble bynnag a sut bynnag maent yn dilyn eu cyrsiau. Gwelwyd enghreifftiau dyfeisgar iawn yn ystod y cyfnod diweddar wrth symud y sector i ddysgu'n ddigidol. Wrth drawsnewid y sector i fod ar-lein, trefnwyd cyfarfodydd wythnosol gan staff y Ganolfan er mwyn cefnogi'r gweithlu. O'r herwydd

datblygwyd cymuned o diwtoriaid ar draws y ffiniau. Crëwyd canllaw dysgu rhithiol defnyddiol gan y Ganolfan ar sail ymchwil a chofnodi arferion da. Drwy gyd-weithio effeithiol gyda'r darparwyr oedd â phrofiad ymarferol o addysgu ar-lein datblygwyd hyfforddiant ar-lein buddiol iawn rhwng y Ganolfan a'r darparwyr. Gwerthfawrogir y gynhaliaeth ddysgu proffesiynol gan diwtoriaid gyda'r rhan fwyaf yn nodi bod ganddyn nhw fynediad at hyfforddiant a chyfleoedd datblygu yn holiadur y gweithlu.

Llwydda'r arweinwyr i greu diwylliant ac ethos cynhaliol i gefnogi dysgu proffesiynol pob un o staff y sector. Mae hyn yn caniatáu a chynorthwyo'r holl staff i ymroi'n weithgar i gynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau proffesiynol.

Drwy brosesau cydlynus, clir o ran rheoli perfformiad mae staff y Ganolfan yn ogystal â darparwyr Dysgu Cymraeg yn cymryd rhan yn effeithiol mewn profiadau dysgu proffesiynol, gwerthuso a rheoli perfformiad er mwyn eu helpu i wella'u harfer.

Aiff arweinwyr a rheolwyr i'r afael â materion tanberfformio ar lefel unigolion ac ar lefel y darparwyr yn drylwyr ac yn uniongyrchol, lle bydd angen ar sail eu hadnabyddiaeth gref o'u darparwyr. Gwneir hyn mewn dull anogol a chynhaliol drwy ddarparu cyngor, arweiniad a hyfforddiant penodol tra'n monitro cynnydd yn effeithiol.

Cyflwynwyd Academi sef cartref cenedlaethol ar blatfform digidol y Ganolfan ar gyfer dysgu proffesiynol i bawb yn y sector. Drwy gysoni'r hyfforddiant mewn un cartref cyflawnwyd cam allweddol ac arwyddocaol. Er enghraifft, pan gyhoeddwyd cwrs lyfrau newydd y cwricwlwm cytûn Dysgu Cymraeg i oedolion trefnwyd hyfforddiant penodol i gefnogi tiwtoriaid i gyflwyno'r amryfal gyrsiau. Dyma enghraifft nodedig o gynllunio cydlynus sydd yn cael dylanwad uniongyrchol ar brofiad y dysgwr.

Drwy adnabyddiaeth gadarn y Ganolfan o'r rhagoriaethau o fewn eu darparwyr mae cyfleodd cyfoethog a gwerthfawr i staff y sector rannu arferion da. Enghraifft lwyddiannus o hyn fu sesiwn fuddiol iawn, lle daeth pawb yn y sector at ei gilydd a rhannu samplau o arsylwadau ar draws y darparwyr er mwyn cysoni a chymedroli,

Mae prosesau adnabod arferion da yn digwydd ar sawl haen o fewn y Ganolfan. Adnabyddir rhagoriaeth o ran arferion rheolaeth ac addysgu effeithiol. Gwahoddir rheolwyr i gyflwyno yn y cyfarfod rheolwyr i rannu arferion ar feysydd megis cyfathrebu effeithiol. Mae'r darparwyr eu hunain yn adnabod eu rhagoriaethau hwy ac yn gwahodd y tiwtoriaid hynny er mwyn rhannu arferion da yn lleol ac yn genedlaethol. Mae'r rhaeadru hyn yn cefnogi'r sector i anelu at ragoriaeth.

Mae perthynas agos rhwng swyddogion y Ganolfan a'r darparwyr sy'n caniatáu iddi gael darlun clir o'r prif flaenoriaethau yn y sector. Er enghraifft, drwy ymweld â gwersi gan bob darparwr ceir profiad uniongyrchol o'r cryfderau a meysydd datblygu o ran y ddarpariaeth. Ar sail yr ymweliadau arsylwi hyn, datblygwyd hyfforddiant ar dechnegau cyflwyno ac atgyfnerthu iaith drwy ddrilio i diwtoriaid ar draws Cymru. Yn ychwanegol, drwy'r cyfarfodydd cefnogi pennir meysydd lleol a chenedlaethol sydd angen sylw o ran dysgu proffesiynol ar y sector.

Cryfder nodedig yw dull y Ganolfan o adnabod materion a nodwyd fel argymhellion mewn arolygiadau a phennu hyfforddiant penodol i ddiwallu'r anghenion hynny. Un enghraifft oedd swyddogion ansawdd y sector yn cyd-weithio, arwain a chreu canllaw penodol er mwyn gwella adborth wrth farcio a gafodd ei adnabod fel maes datblygu

yn lleol. Yn holiadur cenedlaethol diweddaraf, 'Dweud eich Dweud' gwelwyd bod y rhan fwyaf o'r gweithlu erbyn hyn yn fwy hyderus bellach am yr agwedd hon.

Gwelir bod cyfranogiad uchel ymhlith staff yn y sector mewn gweithgareddau datblygu proffesiynol cenedlaethol a arweinir gan y Ganolfan. Drwy fforymau rhanbarthol, cenedlaethol ac Academi mae arlwy eang a chyfoethog sy'n ymateb yn llwyddiannus i'r canfyddiadau a nodwyd yn 'Cynllun Datblygu'r Gweithlu'. Datblygiad dyfeisgar ar blatfform digidol y Ganolfan yw'r unedau hyfforddiant Datblygiad Dysgu Proffesiynol fydd yn caniatáu i bob aelod o staff y sector gael cofnod personol ar eu porth 'fy nysgu' unigryw sy'n dysteb o'u cyflawniad a'u cynnydd.

Cyflawnwyd gwaith defnyddiol wrth ddatblygu'r Cymhwyster Cenedlaethol i diwtoriaid. Crëwyd cymhwyster newydd ar lefelau 4 a 6 yn lle'r cymhwyster lefel 5 blaenorol. Drwy wneud hyn caiff anghenion tiwtoriaid newydd i'r maes a thiwtoriaid profiadol eu diwallu. Mae'r unedau wedi'u datblygu ar gyfer y cymhwyster lefel 6, fodd bynnag, ni fydd yn bosib cynnal y cymhwyster yn llawn yn y dyfodol agos oherwydd toriadau i'r gyllideb. Er hyn, bydd hyd at dair o'r unedau'n cael eu troi yn unedau ar-lein i ffurfio rhan o Academi.

Mae balchder a mwynhad y tiwtoriaid o fod yn gweithio yn y sector yn nodwedd eithriadol. Drwy'r datblygiadau canolog a wireddwyd drwy waith y Ganolfan ceir ymdeimlad sicr bellach bod un tîm cenedlaethol yn cyd-weithio er budd y dysgwyr.

**Defnyddio adnoddau**

Mae'r Ganolfan a rheolwyr darparwyr yn cynllunio'n fwriadus a thrwyadl wrth ddefnyddio grantiau i ddarparu cyrsiau ar gyfer dysgwyr ar bob lefel.

Mae'r gyllideb a'r cynllun gweithredu'n cael eu trafod mewn amryfal gyfarfodydd gyda phrosesau clir a thryloyw'n cael eu cynnal ar gyfer amcangyfrif a rheoli'r gwariant. Er enghraifft, mae'r swyddogion canolog yn trefnu cyfarfod misol gyda rheolwyr cyllidebau i drafod gwariant cyfredol wrth flaengynllunio'r arlwy. Trafodir rhagolygon cyllid y darparwyr cwrs a chyflwynir adroddiadau cyfrifon rheoli i'r bwrdd cwmni fel rhan o'r broses fonitro.

Mae swyddogion y Ganolfan yn cefnogi rheolwyr darparwyr yn effeithiol i wneud penderfyniadau gwariant a chynllunio ariannol sy'n cysylltu'n fwriadus â'r blaenoriaethau strategol a chynlluniau'r darparwyr ar gyfer gwella. Er enghraifft, mae'r strwythur ar gyfer cynllunio rhaglenni dysgu lleol yn cael eu trefnu'n fanwl mewn templed cynllunio sy'n gyson ar draws y darparwyr cwrs. Gosodir targedau ac allbynnau i gyflawni'r gwaith, amserlen a chyllideb o'r cynlluniau dysgu fel cyfrwng cyson i drafod y gyllideb ddosranedig. Mae uwch reolwyr a swyddogion canolog y Ganolfan ac aelodau'r bwrdd cwmni yn craffu ar ffurflenni cais rheolwyr darparwyr cwrs yn fanwl ac yn eu cymeradwyo a'u monitro'n ofalus. Mae unioni a chysoni ffioedd a gostyngiadau i ddysgwyr wedi sicrhau cysondeb i ddysgwyr yn genedlaethol.

Yn dilyn cwtogiad yng nghyllideb cynllun Cymraeg Gwaith yn ystod y pandemig, mae ddarpariaeth wedi ei haddasu'n fwriadus i gynnig gwasanaeth ar-lein effeithiol er mwyn diwallu anghenion cyflogwyr yn absenoldeb cyrsiau wyneb yn wyneb. Mae'r cynnydd cadarnhaol yn nifer y dysgwyr o fewn gwahanol sefydliadau, er enghraifft

byrddau iechyd, yn tystio bod swyddogion canolog yn buddsoddi amser a chyllid yn effeithiol.  Maent yn ymateb yn effeithiol i alw cyflogeion i gefnogi'r gweithlu i ddysgu Cymraeg mewn cyfnod heriol.

Mae'r Ganolfan yn cydbwyso'i hanghenion tymor byr ochr yn ochr ag anghenion tymor hir dysgwyr a blaenoriaethau cenedlaethol yn ofalus wrth i'r swyddogion canolog gefnogi rheolwyr darparwyr i addasu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr yn unol â'u hanghenion a'u patrymau dysgu.  Mae'r trawsnewidiad digidol o addasu'r ddarpariaeth yn enghraifft effeithiol o hyn wrth ddefnyddio dulliau dysgu o bell a chyfunol fel rhan annatod o'r ddarpariaeth.

Mae'r swyddogion yn cefnogi darparwyr i ddefnyddio lleoliadau hygyrch, adeiladau sy'n addas ac offer sy'n hyrwyddo'r dysgu a'r addysgu, er enghraifft technoleg a chysylltedd i'r rhyngrwyd, yn llwyddiannus.  Caiff hyn ei fonitro yn y Fframwaith Ansawdd Cenedlaethol yn effeithiol ac yn gyfle i addasu'r ddarpariaeth fel bo'n briodol yn unol ag anghenion y dysgwyr.

Mae arweinwyr a rheolwyr y Ganolfan yn llwyr ymwybodol o gostau darparwyr, rhaglenni a gweithgareddau hyfforddi presennol darparwyr, ac yn eu hadolygu wrth gwestiynu a ydynt yn gost-effeithiol tra'n cyfarfod gyda rheolwyr darparwyr cwrs yn gyson.  Er enghraifft, mae'r cyfarfodydd a'r adroddiadau monitro cyson yn esgor ar doreth o wybodaeth sy'n amlinellu a chyfiawnhau'r gwariant, megis tueddiad o wario uwchlaw neu islaw'r gyllideb ddirprwyedig flynyddol ynghyd â chraffu ar achosion o warged neu ddiffyg.  Defnyddir fformiwla ariannu i roi gwerth ar bob dysgwr a phob gweithgaredd dysgu gyda disgwyliad bod darparwyr yn cyrraedd eu targedau fel rhan o'r broses fonitro a gwerthuso'r ddarpariaeth.  Yn ogystal, gofynnir i'r darparwr gyflwyno gwybodaeth am eu cyfrifon ariannol yn flynyddol sy'n adrodd ar wariant y grant a dderbynnir gan y Ganolfan.   Mae'r Ganolfan yn monitro'n ofalus nad yw gwariant gan ddarparwyr ar weithgareddau heblaw addysgu yn uwch na'r trothwy cytundebol ac yn cymryd camau priodol i unioni sefyllfaoedd o'r fath.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr yn:

- dadansoddi’r deilliannau o’r holiadur i ddysgwyr ac ystyried barn tiwtoriaid a staff drwy eu hymatebion holiadur
- craffu ar ddeilliannau arolygu darparwyr Dysgu Cymraeg

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr yn:

- cyfarfod â phennaeth y darparwr, cynrychiolydd y corff rheoli/corff llywodraethol, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo’n briodol)
- cyfarfod â grwpiau o ddysgwyr
- cyfarfod â darparwyr Dysgu Cymraeg a phartneriaid allweddol
- edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r darparwr
- ystyried cynlluniau gwella’r darparwr ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd y darparwr wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am gynnydd dysgwyr, cofnodion o gyfarfodydd perthnasol a chyfarfodydd y corff rheoli/llywodraethol, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad
- gwahodd y darparwr i sicrhau bod yr adroddiad yn ffeithiol gywir

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2021: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 12/03/2021